# DWP a'ch gwybodaeth bersonol

## Pam rydym yn casglu gwybodaeth bersonol

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn casglu gwybodaeth at ddibenion nawdd cymdeithasol (gan gynnwys Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor), cynhaliaeth cynnal plant, taliadau niwed drwy frechiad, cyflogaeth a hyfforddiant, y Cynllun Cymorth Ariannol, hyrwyddo cynllunio ariannol ar gyfer ymddeoliad, a pholisi sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol. Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch yn dibynnu ar y rheswm dros eich busnes gyda ni, ond gallwn ddefnyddio'r wybodaeth at unrhyw un o'r dibenion hyn. Gallem hefyd ddefnyddio gwybodaeth amdanoch i gynnal gwaith ymchwil ar ba mor effeithiol yw ein gwasanaethau.

## Y wybodaeth sedd gennym amdanoch

Gall y wybodaeth sydd gennym gynnwys:

- ffurflenni rydych wedi'u cwblhau a'u rhoi i ni;
- ceisiadau rydych wedi'u gwneud dros y ffôn;
- llythyrau rydych wedi'u hanfon atom;
- manylion unrhyw wiriadau a wnawn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd gennym yn gywir;
- cofnodion cyfrifiadurol sy'n ymwneud â'ch busnes gyda'r Adran.

## Gwybodaeth a gawn gan sefydliadau eraill neu a rown i sefydliadau eraill

Yn ogystal â gwirio'r wybodaeth a ddarperir gydag unrhyw wybodaeth sydd gennym eisoes, gallem gael gwybodaeth amdanoch gan bobl eraill a sefydliadau eraill, fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu.

Gallem hefyd roi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill. Gall hyn fod oherwydd:

- bod y gyfraith (yn cynnwys y Ddeddf Diogelu Data) yn caniatáu i ni wneud hynny, neu'n dweud bod yn rhaid i ni wneud hynny;
- bod Gorchymyn Llys yn dweud ei fod yn angenrheidiol neu
- eich bod wedi rhoi eich caniatâd.

Gallai'r sefydliadau y rhown wybodaeth iddynt, neu'r rhai y cawn wybodaeth ganddynt, gynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth a'u hasiantaethau, yn enwedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi; awdurdodau lleol; banciau, cymdeithasau adeiladu a chyrff ariannol eraill; trwyddedu teledu'r BBC; asiantaethau cyfeirio credyd; darparwyr cyfleustodau; cyrff addysgol ac academaidd; y Cyngor Dysgu a Sgiliau; sefydliadau ymchwil; darparwyr gwasanaeth iechyd; asiantaethau gorfodi'r gyfraith gan gynnwys yr Heddlu a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol; yr Asiantaeth Adennill Asedau; a sefydliadau nawdd cymdeithasol dramor.

Rydym yn rhoi gwybodaeth i sefydliadau o'r fath, neu'n cael gwybodaeth ganddynt er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth;

- atal neu ganfod troseddau;
- diogelu arian cyhoeddus mewn ffyrdd eraill
- eu defnyddio at ddibenion ymchwil neu ystadegol. (Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau i'w galluogi i gynnal ymchwil ar ein rhan - gweler y paragraff nesaf. Gallem hefyd roi gwybodaeth i sefydliadau eraill i'w defnyddio at eu dibenion ymchwil eu hunain, ond ni fyddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth iddynt a all eich enwi yn bersonol oni bai ein bod yn cael eich caniatâd i wneud hynny.)

Gallem roi gwybodaeth amdanoch i bartneriaid neu asiantaethau sydd wedi'u hawdurdodi yn gyfreithiol i gyflawni unrhyw un o'n swyddogaethau ar ein rhan; er enghraifft darparwyr hyfforddiant, broceriaid swyddi a sefydliadau ymchwil. Dim ond y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y swyddogaethau rydym wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni y byddwn yn ei rhoi i'r sefydliadau a'r unigolion hyn, ac ni allant ddefnyddio'r wybodaeth at unrhyw ddibenion eraill.

**Astudiaeth Hydredol Gwaith a Phensiynau**
Mae'r Astudiaeth Hydredol Gwaith a Phensiynau (yr Astudiaeth) yn gronfa ddata gyfrifiadurol sy'n cyfuno'r wybodaeth sydd gan DWP am ei chwsmeriaid gyda chofnodion HMRC. Defnyddir yr Astudiaeth at amrywiaeth o ddibenion ystadegol ac ymchwil i helpu DWP i werthuso effeithiolrwydd ei gwasanaethau. Caiff ei defnyddio hefyd at nifer gyfyngedig o ddibenion gweithredol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am bwrpas a defnyddiau'r Astudiaeth, a'r dulliau diogel sydd ar waith i ddiogelu'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys, ar ein gwefan:
http://www.dwp.gov.uk/asd/longitudinal_study/ic_longitudinal_study.asp.

**Cyfateb Data**
Cyfateb data yw lle y caiff gwybodaeth a gedwir ar un system gyfrifiadurol ei chymharu mewn ffordd electronig â gwybodaeth ar un neu fwy o systemau cyfrifiadurol eraill. Gallai DWP gymharu'r wybodaeth ar ei systemau mewn swmp gyda'r wybodaeth sydd ar y systemau a ddefnyddir gan sefydliadau eraill, gan gynnwys HMRC; y Swyddfa Gartref (gan gynnwys y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd, a'r Gwasanaeth Carchardai),y Weinyddiaeth Amddiffyn (gan gynnwys yr Asiantaeth Cyn-filwyr), Awdurdodau Lleol, y Cyngor Dysgu a Sgiliau, Post Brenhinol ac asiantaethau cyfeirio credyd. Mae hyn yn helpu DWP i wella cywirdeb y wybodaeth sydd ganddi ac i leihau twyll budd-daliadau a chamgymeriadau.

Er enghraifft, gellir cyfateb gwybodaeth sydd ar systemau DWP am fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm fel Lwfans Ceisio Gwaith a Chymhorthdal Incwm gyda'r wybodaeth sy'n gysylltiedig ag incwm sydd ar systemau HMRC. Gallai unrhyw anghysondebau rhwng y wybodaeth sydd ar systemau'r ddau sefydliad arwain at ymchwiliad pellach gan y naill barti neu'r llall.

Mewn rhai achosion, gellir cael gwybodaeth gan y sefydliad arall a'i chymharu â gwybodaeth sydd gan DWP, ond nid yw'r sefydliadau eraill yn cael gweld y canlyniad. Er enghraifft, mae DWP yn cael rhestri o garcharorion o'r

Gwasanaeth Carchardai, y byddwn yn eu cyfateb yn erbyn ein cofnodion o bobl sy'n cael budd-daliadau a lwfansau. Mae hyn yn caniatáu i ni, lle y bo'n briodol, i atal taliadau i bobl sy'n y carchar, ond nid yw'n cynnwys rhoi gwybodaeth yn ymwneud â budd-daliadau i'r Gwasanaeth Carchardai.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gyfateb data, gan gynnwys ein Cod Ymarfer Cyfateb Data, drwy Gynllun Cyhoeddiadau DWP.

**Rhannu gwybodaeth â'r Heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill**
Gallai DWP roi eich gwybodaeth bersonol i heddluoedd neu gyrff gorfodi'r gyfraith eraill, er mwyn helpu i atal a chanfod troseddau a dal ac erlyn troseddwyr. Dim ond os gellir profi na fyddai dangos y wybodaeth yn rhagfarnu'r dibenion hyn y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu.

**Rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol**
Mae Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor yn fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a gaiff eu gweinyddu gan Awdurdodau Lleol. Mae'r gyfraith yn caniatáu i DWP rannu gwybodaeth am ei chwsmeriaid gydag Awdurdodau Lleol at ddibenion budd-dal tai neu fudd-dal treth cyngor fel y gallant gyfrifo'r swm cywir o fudd-dal er mwyn talu cwsmeriaid. Mae gan staff Awdurdodau Lleol sydd â chyfrifoldeb am weinyddu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor fynediad electronig i'r wybodaeth DWP sydd ei hangen arnynt at y diben hwn. Mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i DWP gasglu gwybodaeth at ddibenion Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor ar ran Awdurdodau Lleol a'i throsglwyddo iddynt.

Mae DWP ac Awdurdodau Lleol yn gweithio i gynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael â thlodi. Mae sawl Awdurdod Lleol yn rhedeg cynlluniau i helpu'r bobl yn eu hardal sy'n chwilio am waith. Bydd DWP yn trosglwyddo manylion cwsmeriaid sy'n dweud wrthym eu bod am gymryd rhan mewn unrhyw un o'r cynlluniau hyn i'r Awdurdodau Lleol priodol.

**Rhannu gwybodaeth gyda'r Cyngor Dysgu a Sgiliau a'i ddarparwyr (Lloegr yn unig)**
Gallai DWP rannu gwybodaeth am gwsmeriaid, cyhyd â'u bod wedi rhoi eu caniatâd, gyda'r Cyngor Dysgu a Sgiliau a'i ddarparwyr at ddibenion cyflogaeth a hyfforddiant. Mae hyn yn helpu DWP i werthuso'r effaith y mae hyfforddiant y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn ei gael ar gwsmeriaid ac i wneud taliadau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant cywir i gwsmeriaid cymwys.

**Gallwch gael mwy o wybodaeth am bwy rydym yn rhannu gwybodaeth â hwy yn:**
www.dwp.gov.uk/welsh/information-sharing.pdf

## Manylion pobl eraill yn y cartref

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n gwneud cais am fudd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm, er enghraifft Credyd Pensiwn neu Lwfans Ceisio Gwaith, ddarparu gwybodaeth am unrhyw blant neu oedolion eraill sy'n byw gyda hwy, gan y gallai hyn effeithio ar swm y budd-dal a delir iddynt. Mae angen gwybodaeth am oedolion eraill (nad ydynt yn bobl

ddibynnol) oherwydd mae disgwyl iddynt gyfrannu'n ariannol tuag at gostau tai, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i DWP rannu gwybodaeth am bobl nad ydynt yn ddibynnol gydag Awdurdodau Lleol at ddibenion Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor.

## Deddf Diogelu Data 1998

Mae'r Ddeddf Diogelu Data (y Ddeddf) yn gosod rheolau ar gyfer y ffordd y mae sefydliadau yn ymdrin â gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n gymwys i gofnodion ar bapur a chofnodion cyfrifiadurol.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i chi weld pa wybodaeth a ddelir amdanoch chi ar gyfrifiadur ac ar rai cofnodion ysgrifenedig.

**Sut gallaf gael gwybod pa wybodaeth sydd gennych amdanaf?**
Os byddwch am weld y wybodaeth sydd gennym amdanoch, dywedwch wrthym pa wybodaeth yn union yr hoffech ei gweld. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth gwell i chi. Byddwn yn anfon copi o'r wybodaeth sydd gennym atoch, os oes gennym wybodaeth, cyn gynted â phosibl ac o fewn 40 diwrnod calendr ar yr hwyraf.

Rhaid i chi ofyn am y wybodaeth yn ysgrifenedig a rhoi gwybodaeth i ni sy'n ein galluogi i wybod yn sicr pwy ydych chi a'ch cyfeiriad.

Er enghraifft, rhowch eich:
- Enw llawn
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Rhif Yswiriant Gwladol.

Os oes gennych unrhyw rifau cyfeirnod eraill a ddefnyddiwn, fel rhif Budd-dal Plant, neu unrhyw wybodaeth arall a allai ein helpu i sicrhau pwy ydych chi, cofiwch gynnwys hyn hefyd.

**A allaf weld yr holl wybodaeth sydd gennych amdanaf?**
Fel arfer, gallwch weld yr holl wybodaeth sydd gennym, ond mae rhai eithriadau. Mae'r eithriadau hyn yn ymwneud yn bennaf â:
- y ffordd y caiff twyll budd-daliadau ei ganfod neu ei atal
- dal neu erlyn troseddwyr
- asesu neu gasglu trethi neu dollau
- sicrhau bod ein staff yn ddiogel.

Mewn rhai achosion gallai eich hawl i weld gwybodaeth benodol am iechyd neu wybodaeth feddygol fod yn gyfyngedig. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddileu neu dynnu unrhyw wybodaeth a fyddai, ym marn gweithiwr proffesiynol meddygol, yn debygol o achosi niwed difrifol pe baem yn ei datgelu i chi.

**Ble i anfon ceisiadau am wybodaeth**
Os ydych yn gwybod pa swyddfa sy'n delio â'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, cyfeiriwch eich cais at y "Swyddog Diogelu Data" a'i anfon i'r swyddfa honno. Fel arall, cyfeiriwch eich cais at y "Swyddog Diogelu Data" a'i anfon i'r swyddfa DWP agosaf i lle rydych yn byw. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eich swyddfa agosaf yn y llyfr ffôn neu ar ein gwefan: www.dwp.gov.uk

**Beth ddylwn ei wneud os yw'r wybodaeth hon yn anghywir neu os hoffwn gwyno am sut rydych wedi ymdrin â'm gwybodaeth?**
Dylech gysylltu â'r swyddfa sy'n delio â'ch achos yn gyntaf. Os byddwch yn anfodlon gyda'u hymateb, yna dylech gwyno. Mae manylion am sut i gwyno ar gael yn: http://www.dwp.gov.uk/welsh/contact/complaintsappeals.asp.

Os, ar ôl cwyno, eich bod yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae manylion am eu gwefan yn yr adran nesaf

**Rhagor o wybodaeth**
DWP yw'r Rheolwr Data at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data. Mae cofrestriad DWP fel Rheolwr Data yn y Gofrestr Gyhoeddus o Reolwyr Data, a gellir dod o hyd iddi ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: www.ico.gov.uk.

Os hoffech gael gwybod mwy am y wybodaeth sydd gennym amdanoch, neu'r ffordd rydym yn defnyddio ein gwybodaeth, cysylltwch ag unrhyw un o swyddfeydd yr Adran. Gallwch hefyd ofyn i'ch cyngor lleol pa wybodaeth sydd ganddynt amdanoch.

Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg, mewn print bras, mewn Braille, ar dâp sain ac ar CD sain. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau. Gallwch eu ffonio ar **0800 88 22 00**. Mae gwasanaeth ffôn testun ar gael hefyd ar **0800 24 33 55** i bobl sydd ag anawsterau ar eu lleferydd a'u clyw. Gallwch ffonio'r rhifau hyn rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9.00am a 1.00pm ar ddydd Sadwrn.

Cofiwch mai canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y daflen hon yn gywir ar y dyddiad a ddangosir isod.